

## **Arolygiad Ysbyty (Dirybudd)**

Ysbyty'r Tywysog Philip

Ward 7

Dyddiad yr arolygiad: 2 - 3

Tachwedd 2021

Dyddiad cyhoeddi: Chwefror 4  
2022

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu**  
**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**  
**Llywodraeth Cymru**  
**Parc Busnes Rhyd-y-car**  
**Merthyr Tudful**  
**CF48 1UZ**

Neu drwy

**Ffôn: 0300 062 8163**  
**E-bost: [agic@llyw.cymru](mailto:agic@llyw.cymru)**  
**Gwefan: [www.agic.org.uk](http://www.agic.org.uk)**

## Cynnwys

1.	Yr hyn wnaethom .....	5
2.	Crynodeb o'n harolygiad .....	6
3.	Yr hyn a ganufom .....	7
	Ansawdd profiad y claf .....	8
	Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol .....	12
	Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth .....	19
4.	Beth nesaf? .....	23
5.	Sut rydym yn arolygu ysbytai .....	24
	Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad.....	25
	Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith .....	26
	Atodiad C – Cynllun gwella.....	27

# Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer gofal iechyd yng Nghymru

## Ein diben

Gwirio bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal iechyd o ansawdd da

## Ein gwerthoedd

Mae cleifion wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud. Rydym yn:

- Annibynnol
- Gwrthrychol
- Gofalgar
- Cydweithredol
- Awdurdodol

## Ein blaenoriaethau

Drwy ein gwaith, ein nod yw:

Rhoi sicrwydd:

Cynnig safbwynt annibynnol ar ansawdd y gofal

Hybu gwelliant:

Annog gwelliant trwy adrodd a rhannu arfer da

Dylanwadu ar bolisi a safonau:

Defnyddio'r hyn a welwn i ddylanwadu ar bolisiau, safonau ac arferion

# 1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad o Ward 7, Ysbyty'r Tywysog Philip ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda ar 2 a 3 Tachwedd 2021. Cyhoeddwyd yr arolygiad ar y prynhawn cyn y bore inni gyrraedd oherwydd y cyfluniad presennol y ward fel llwybr <sup>1</sup>dewisol gwyrdd.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau uwch-arolygydd gofal iechyd ac un adolygydd cymheiriaid clinigol. Arweiniwyd yr arolygiad gan uwch-arolygydd gofal iechyd.

Bu AGIC yn archwilio sut roedd y gwasanaeth yn bodloni'r Safonau Iechyd a Gofal (2015) a chanllawiau perthnasol eraill.

Ceir manylion pellach am sut rydym yn cynnal arolygiadau o ysbytai yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

---

<sup>1</sup>Term a roddir i ardal o ysbyty lle mae rheolaethau ychwanegol wedi'u rhoi ar waith i leihau'r risg o drosglwyddo COVID-19.

## 2. Crynodeb o'n harolygiad

Ar y cyfan, gwelsom dystiolaeth fod y gwasanaeth yn darparu profiad cadarnhaol i'r cleifion, gyda lefel dda o ofal diogel ac effeithiol yn cael ei darparu i'w gleifion.

Rydym wedi argymhell nifer o feysydd i'w gwella a fydd yn gwella arferion presennol ar y ward yn unol â'r Safonau Iechyd a Gofal.

Gwelsom dystiolaeth o dîm rheoli sydd wedi'i hen sefydlu, a oedd yn cael ei gefnogi gan weithlu ymrwymedig.

Canfuom fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Cafwyd adborth hynod o gadarnhaol gan gleifion
- Roedd pwyslais ar ddarparu llwybr llawfeddygol diogel ac amgylchedd diogel i gleifion
- Roedd staff yn cael hyfforddiant amlddisgyblaethol ac uwchsgilio i ddiwallu anghenion cleifion.

Rydym yn argymhell y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Dogfennu gweithdrefnau ar gyfer symud staff rhwng wardiau
- Rhai agweddau o reoli meddyginiaethau
- Ail-weithredu archwiliadau uwch nyrsys.

Cyfeiriwch at Atodiad C ar gyfer y cynllun gwella llawn

### 3. Yr hyn a ganfuom

#### **Cefndir y gwasanaeth**

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda yn gyfrifol am gynllunio a darparu gwasanaethau GIG ar draws siroedd Caerfyrddin, Ceredigion a Phenfro. Mae Ysbyty Tywysog Philip yn un o bedwar ysbyty cyffredinol dosbarth o fewn y Bwrdd Iechyd ac mae wedi'i leoli yn Llanelli.

Cyn y pandemig, roedd Ward 7 yn darparu gofal a thriniaeth feddygol a llawfeddygol i gleifion yr oedd angen triniaethau ar y fron, triniaethau gastroenteroleg a thriniaethau wroleg. Ers y pandemig, mae Ward 7 wedi'i dylunio fel llwybr gwyrdd y Bwrdd Iechyd ar gyfer llawdriniaeth ddewisol. Mae hyn yn cynnwys ychwanegu llawdriniaeth y colon a'r rhefr.

Roedd y ward yn darparu 28 o welyau yn flaenorol, ond bellach mae ganddi le ar gyfer 24 o welyau oherwydd mesurau cadw pellter cymdeithasol. Mae 12 o ystafelloedd en-suite preifat ar gael ar y ward.

## Ansawdd profiad y claf

*Gwnaethom siarad â chleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (pan oedd hynny'n briodol) i sicrhau bod safbwynt y cleifion yn ganolog i'n dull o arolygu.*

Ar y cyfan, canfuom fod Ward 7 yn rhoi profiad cadarnhaol i gleifion.

Rhoddodd y cleifion adborth hynod gadarnhaol ac roeddent yn canmol y gofal a ddarparwyd gan y staff yn fawr. Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn frwdfrydig ac yn canolbwyntio ar y claf yn eu hymatebion.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom ddsbarthu holiaduron AGIC i gleifion er mwyn cael eu safbwyntiau am y gwasanaethau a ddarperir. Cwblhawyd cyfanswm o 9 holiadur. Gofynnwyd i gleifion yn yr holiadur raddio eu profiad cyffredinol o'r gwasanaeth. Roedd pob un o'r naw o'r farn bod y gwasanaeth yn 'dda iawn'. Yng ngeiriau'r cleifion:

*“Mae'n hyfryd. Mae'r cyfleusterau a'r safonau yn wych. Mae'r staff yn wych.”*

*“Eithriadol ym mhob ffordd. Y staff, y bwyd, y gofal, a'r glendid gorau i mi ei brofi.”*

*“Roeddwn i'n teimlo'n gyfforddus pan gyrhaeddais yr ysbyty. Fe wnaeth fy nheimpladau o orbyder gael eu lleddfu ar unwaith, ac mae'r staff wedi bod yn ofalgar iawn.”*

## Cadw'n iach

Rhoddir canllawiau COVID-19 i gleifion cyn eu llawdriniaeth arfaethedig. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth am gadw pellter cymdeithasol, hunan-ynysu, sgrinio ac addasrwydd trafndiaeth i'r ysbyty. Roedd y wybodaeth yn glir, yn gynhwysfawr ac yn darparu pwyntiau cyswllt i gleifion pe byddai unrhyw bryderon neu ymholiadau.



## **Gofal ag urddas**

Dywedodd pob un o'r naw claf a gwblhaodd holiadur AGIC wrthym eu bod wedi cael eu trin ag urddas a pharch gan y staff yn yr ysbyty, gyda phawb yn cytuno bod y staff bob amser yn garedig ac yn gwrtais.

Roedd amgylchedd y ward yn fodern ac yn rhoi profiad urddasol i gleifion. Roedd gan y ward ddeuddeg ystafell breifat, ac roedd gan ddeg ohonynt gyfleusterau en-suite.

Roedd digon o le yn y cilfachau a rennir ac roedd ganddynt lenni, a oedd yn darparu preifatrwydd pan oedd gofal uniongyrchol yn cael ei roi. Dywedodd pob un o'r naw claf eu bod yn gallu siarad â'r staff am eu gweithdrefn neu driniaeth heb i bobl eraill eu clywed.

Dywedodd pob claf ac eithrio un wrthym fod staff yn dod atynt yn brydlon pan oeddent yn defnyddio'r gloch alw. Roedd yr holl gleifion a atebodd y cwestiwn yn cytuno bod cymorth yn cael ei ddarparu ar amser bwyd neu pan oedd angen mynd i'r toiled, lle bo angen.

Dywedodd yr holl staff a gwblhaodd holiadur wrthym eu bod yn teimlo bod preifatrwydd ac urddas cleifion yn cael eu cynnal yn ystod eu harhosiad ar y ward.

## **Gwybodaeth i gleifion**

Dywedodd pob un o'r naw claf wrthym fod y staff wedi siarad â nhw am eu cyflyrau meddygol ac wedi eu helpu i ddeall eu gofal a'u triniaeth. Cadarnhaodd pawb eu bod yn teimlo'n rhan o unrhyw benderfyniadau a wneir ynghylch eu triniaeth.

Roedd trefniadau ar waith i roi gwybodaeth i gleifion am sut i leihau'r risgiau sy'n gysylltiedig â COVID-19 cyn eu triniaeth arfaethedig. Roedd hyn yn cynnwys gwybodaeth am sut i hunanynysu'n effeithiol a sut i gael prawf COVID-19.

Roedd cleifion yn cael gwybodaeth am beth i'w wneud ar ôl cyrraedd yr ysbyty ar gyfer eu triniaeth. Roedd hyn yn cynnwys map yn cynghori cleifion i gyrraedd mynedfa ar wahân i brif adeilad yr ysbyty. Roedd arwyddion i'r ward yn glir i'w dilyn.

Gwelsom fod bwrdd 'pwy yw pwy' staff ar y ward. Roedd y bwrdd yn gyfredol, gyda'r staff oedd ar y shifft honno ar y bwrdd. Mae hyn yn helpu cleifion i ymgysylltu â'r staff sy'n darparu eu gofal.

Roedd gwybodaeth ynghylch diogelwch ar y ward, megis data rheoli heintiau, hefyd yn gyfredol. Mae hyn yn rhoi sicrwydd ychwanegol i gleifion ynghylch y camau a gymerwyd gan y ward i hyrwyddo amgylchedd diogel.

Roedd deunydd gwybodaeth copi caled arall i gleifion ar y ward yn gyfyngedig oherwydd y pandemig a'r angen i gael gwared ar eitemau a allai gynyddu'r risg o drosglwyddo COVID-19.

### **Cyfathrebu'n effeithiol**

Cytunodd yr holl gleifion fod y staff yn gwrando arnynt ac ar eu perthnasau lle bo'n briodol. Dywedodd pob claf ond un wrthym eu bod yn gallu cyfathrebu â staff yn eu dewis iaith.

Gwelsom dystiolaeth fod cofnodion cleifion wedi'u cwblhau yn syth ar ôl pob triniaeth a chyn newid shift. Mae hyn yn helpu i sicrhau bod llif cyfathrebu priodol rhwng staff. Dywedodd staff wrthym fod deinameg tîm da ar y ward, gan gynnwys rhwng timau meddygol, theatr a nyrsio.

### **Gofal amserol**

Mae'r dynodiad a'r llwybr newydd ar gyfer Ward 7 wedi ei alluogi i ehangu a bwrw ymlaen ag ystod o weithdrefnau llawfeddygol dewisol, gan gynnwys ychwanegu llawdriniaeth y colon a'r rhefr. Dywedodd uwch staff wrthym fod hyn yn helpu i fynd i'r afael â'r ôl-groniad o driniaethau a achosir gan y pandemig, yn ogystal â sicrhau y gellir trin gweithdrefnau brys yn brydlon.

Canfuom fod y bwrdd iechyd wedi rhoi trefniadau ar waith yn gyflym ar gyfer cynllunio a sefydlu'r llwybr newydd. Roedd hyn yn cynnwys creu llwybrau diogel COVID-19 wedi'u teilwra, gan uwchsgilio timau clinigol a gwneud newidiadau ffisegol i amgylchedd yr ysbyty. Nodwyd tystiolaeth o ymagwedd amlddisgyblaethol dda tuag at hyn.

Canfuom fod hyd arhosiad cyfartalog cleifion yn dilyn eu llawdriniaeth yn isel. Gwnaethom nodi bod trefniadau cynllunio rhyddhau clir yn cael eu trafod wrth dderbyn cleifion i'r ward, a bod y rhain wedi'u dogfennu'n dda, gan gynnwys y cynlluniau gofal dilynol.

### **Gofal unigol**

#### **Hawliau pobl**

Nid oedd unrhyw gleifion â dementia nac o dan y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid ar adeg yr arolygiad. Fodd bynnag, roedd rheolwr y ward yn ymwybodol

o'r weithdrefn ac roedd yn gallu disgrifio'r broses gan ddefnyddio enghraifft o'r gorffennol. Gwnaethom gadarnhau bod cydymffurfiaeth uchel â hyfforddiant gorfodol yn y maes hwn.

Roedd ymweliadau wedi'u cyfyngu ar y ward i helpu i amddiffyn cleifion rhag y risg o COVID-19. Fodd bynnag, canfuom fod posterï wedi'u harddangos ar y ward yn rhoi gwybod i gleifion sut y gallant gysylltu â pherthnasau na chaniateir iddynt ymweld â nhw. Dywedwyd wrthym fod cynlluniau ar waith i benodi swyddog cyswllt teulu.

Gwelsom fod Wi-Fi ar gael ar y ward a gwelsom gleifion yn defnyddio eu dyfeisiau eu hunain. Dywedodd y staff wrthym fod tabled ar gael i gleifion ei ddefnyddio pe bai angen, ac y byddent yn cael cymorth i'w defnyddio pe bai angen.

### **Gwrando a dysgu o adborth**

Darparodd cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC adborth hynod o gadarnhaol am eu harhosiad ar y ward. Gwelsom hefyd ganmoliaeth a dderbyniwyd gan gleifion a oedd wedi'u hanfon yn uniongyrchol i'r ysbyty.

Canfuom bod y nifer o gwynion ar y ward yn isel. Gwnaethom adolygu canlyniad cwyn diweddar a chanfod bod y gŵyn wedi dilyn adolygiad priodol a phroses ddilynol. Roedd camau gweithredu wedi'u nodi ac wedi'u rhoi ar waith gan reolwr y ward yn brydlon, a oedd yn cynnwys cyfathrebu â thîm ehangach y ward.

## Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol

*Gwnaethom ystyried i ba raddau y mae gwasanaethau yn darparu gofal o ansawdd uchel, gofal diogel a gofal dibynadwy sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.*

Ar y cyfan, canfuom fod Ward 7 yn darparu gofal diogel ac effeithiol i gleifion. Roedd tystiolaeth nodedig o waith y tîm amlddisgyblaethol yn nhrefniadaeth ffisegol Ward 7 a dangosodd y staff ymrwymiad i gynnal mesurau atal a rheoli heintiau llym.

Nodwyd nifer fach o welliannau gennym i hyrwyddo ymhellach y broses o ddarparu gofal diogel ac effeithiol.

### Gofal diogel

#### Rheoli risg a hyrwyddo iechyd a diogelwch

Roedd y ward yn hygyrch i'r rhai ag anabledd neu anawsterau symudedd. Dywedwyd wrthym fod derbyniadau newydd yn cael amser i gyrraedd y ward a bod staff y ward yn cyfarfod â chleifion i leihau'r risg o ddod i gysylltiad â rhannau eraill o'r ysbyty.

Roedd amgylchedd mewnol yr ysbyty i'w weld yn lân ac yn drefnus. Gwnaethom adolygu amserlenni glanhau diweddar y wardiau a chanfod bod y glanhau'n cael ei gwblhau'n gyson. Fodd bynnag, gwnaethom nodi bod bylchau yn yr amserlenni o bryd i'w gilydd. Dywedwyd wrthym y gallai hyn fod oherwydd bod y rhan honno o'r ward yn wag bryd hynny. Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod yr amserlenni glanhau yn cynnwys nodyn byr i ddangos unrhyw eithriadau.

Gwnaethom siarad â'r staff cadw tŷ a oedd yn dangos balchder yn y gwaith y maent yn ei wneud. Fodd bynnag, dywedwyd wrthym bod teimladau o anawsterau ynglŷn â staffio weithiau o fewn y tîm, a all roi pwysau ychwanegol ar y tîm i gyflawni'r safonau y maent yn dymuno eu cyflawni. Cynghorir y bwrdd iechyd i fonitro lefelau staffio o fewn y tîm cadw tŷ.

Gwelsom staff yn cynnal arferion hylendid dwylo da wrth fynd i mewn ac allan o fannau bae'r cleifion. Roedd yr holl staff yn foel o dan y penelin. Gwelsom fod posteri ar gael yn atgoffa staff, cleifion ac ymwelwyr o bwysigrwydd gorchuddion wyneb ac ymolchi dwylo.

Gwnaethom edrych ar y troli brys a chanfod bod gwiriadau staff wedi'u cwblhau'n gyson. Roedd yr holl eitemau a arsylwyd yn gyflawn ac yn gyfredol. Gwelsom fod gwiriadau rheoli tymheredd oergelloedd hefyd wedi'u cwblhau yn ôl yr angen.

#### Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod amserlenni glanhau yn cynnwys nodyn byr i egluro unrhyw eithriadau neu hepgoriadau.

#### Atal niwed pwyso a niwed i feinwe

Canfuom fod cleifion yn cael eu hasesu o ran risg ar gyfer niwed pwyso ar y pwynt derbyn. Roedd hyn yn cynnwys defnyddio siartiau ysgerbydol a bwndel SKIN<sup>2</sup> a oedd wedi'i gwblhau'n briodol yn y sampl o gofnodion tri chlaf a adolygwyd gennym. Gwnaethom nodi bod gwybodaeth archwilio niwed pwyso wedi'i harddangos ar y ward a'i bod wedi sgorio'n uchel.

#### Atal cwympiadau

Gwelsom fod asesiadau risg o gwympiadau wedi'u dogfennu'n briodol yn y sampl o gofnodion cleifion a adolygwyd gennym. Gwnaethom nodi bod gwybodaeth archwilio cwympiadau wedi'i harddangos ar y ward a'i bod wedi sgorio'n uchel.

#### Atal a rheoli heintiau

Mae cleifion yn cael eu derbyn i Ward 7 trwy lwybr gwyrdd, sydd â'r nod o leihau'r risg o drosglwyddo COVID-19 neu heintiau eraill cymaint â phosibl. Roedd y bwrdd iechyd wedi rhoi nifer o fesurau rheoli ar waith yn unol â chanllawiau iechyd cyhoeddus a mesurau gofalus ychwanegol yn seiliedig ar asesiadau risg a gweithdrefnau lleol:

Cyn-derbyn:

---

<sup>2</sup>Mae bwndel SKIN yn rhestr wirio sy'n seiliedig ar dystiolaeth i gynorthwyo staff i atal niwed i feinwe/pwyso

- Mae cleifion yn cael asesiad sgrinio cyn-derbyn o bell, gan gynnwys gwiriad symptomau COVID-19, i sicrhau eu bod yn addas i'w derbyn ar y ward
- Disgwylir i gleifion hunanyngysu am gyfnod o ddeg diwrnod
- Mae cleifion yn cael swab COVID-19 mewn canolfan brofi leol o fewn 72 awr i'w derbyn. Mae staff yn cadarnhau bod canlyniad negyddol yn cael ei dderbyn 24 awr cyn eu derbyn i'r ward
- Mae cleifion yn cael amrywiaeth o wybodaeth i roi gwybod iddynt am eu harhosiad ar y ward, gan gynnwys sut i leihau'r risg o ddod i gysylltiad â COVID-19 cyn cael eu derbyn.
- Cwblheir asesiad risg dan arweiniad meddyg ymgynghorol ar gyfer unrhyw gleifion a allai fod wedi torri'r cyfnod o 14 diwrnod yn anfwriadol.

#### Pwynt mynediad:

- Cynhelir cyfarfodydd ward amlddisgyblaethol i gynllunio ar gyfer pob derbyniad newydd
- Mae cleifion yn cael amser penodol i gyrraedd, yn cael eu harwain i fynedfa ar wahân i ffwrdd o'r prif ysbyty, ac yn cael cyfarpar diogelu personol a hylif diheintio dwylo
- Mae proses sgrinio symptomau COVID-19 ychwanegol yn cael ei chynnwys

#### Rheolaethau ychwanegol:

- Ni chaniateir ymweliadau â'r ward a safle'r ysbyty ehangach
- Mae gan y ward ei llwybr bwyd ei hun ac ni chaniateir i unrhyw staff ddefnyddio ffreutur yr ysbyty i osgoi cymysgu
- Mae staff sy'n mynychu'r ward, megis fferyllwyr, yn mynychu ar ddechrau'r diwrnod cyn iddynt fynd i rannau eraill o'r ysbyty
- Roedd llwybr i'r theatr wedi'i greu i sicrhau y gellir symud cleifion rhwng y ward a'r theatr gan leihau'r cyswllt â phobl eraill.

Canfuom y gofynnir yn aml i staff weithio mewn rhannau eraill o'r ysbyty pan fydd y galw ar y wardiau hynny'n cynyddu. Dywedwyd wrthym fod nifer o fesurau rheoli ar waith i leihau'r risg o COVID-19, megis peidio â dychwelyd i'r ward ar ganol

shifft, cynyddu'r defnydd o brofion llif unffordd, a sicrhau bod gwisgoedd yn cael eu glanhau'n briodol. Buom hefyd yn siarad â nyrs atal a rheoli heintiau, a roddodd sicrwydd inni fod ystyriaeth wedi'i rhoi i leoli staff yn ofalus ar draws y safle, er enghraifft cyfyngu ar symudiadau i ardaloedd lle mae cleifion yn gallu cerdded i mewn iddynt.

Fodd bynnag, ni welsom broses safonol o ddogfennu nac asesiad risg ar gyfer hyn. Dywedodd rhai aelodau o staff wrthym hefyd eu bod yn teimlo bod eu hamgylchiadau personol weithiau'n cael eu diystyru pan ofynnwyd iddynt weithio mewn rhannau eraill o'r ysbyty.

Gwelsom fod cleifion yn cael gwybodaeth glir cyn iddynt gyrraedd yr ysbyty a'u bod yn cael eu sgrinio'n briodol am symptomau. Fodd bynnag, canfuom y gellid gwella'r arwyddion sy'n atgoffa pobl i beidio â mynd i mewn i'r fynedfa ochr a'r dramwyfa i Ward 7 os oeddent yn dangos rhai symptomau COVID-19.

Roedd yn gadarnhaol i nodi na chofnodwyd unrhyw achosion o COVID-19 ar y ward drwy gydol y pandemig.

#### Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r bwrdd iechyd wneud y canlynol:

- Diweddarau eu gweithdrefn weithredu safonol i ffurfioli a safoni'r broses ar gyfer symud staff o'r ward i rannau eraill o'r ysbyty. Dylai hyn gynnwys dull asesu risg tuag at amgylchiadau personol staff
- Diweddarau'r arwyddion atgoffa symptomau COVID-19 i adlewyrchu ehangder symptomau COVID-19 yn well.

#### Maeth a hydradu

Gwelsom fod anghenion maeth a hydradu yn cael eu hasesu a bod anghenion unigol yn cael eu diwallu ar y ward. Roedd y cleifion yn cael dewis o brydau poeth ac roedd anghenion dietegol yn cael eu cofnodi. Roedd brechdanau a byrbrydau eraill ar gael mewn cegin ar y ward i'w darparu i'r cleifion a oedd yn dychwelyd ar ôl cael eu llawdriniaeth.

Roedd yr offeryn sgrinio risg maeth i oedolion yn cael ei ddefnyddio, ac roedd staff yn ymwybodol o sut i ddilyn y llwybr maeth os oedd angen. Gwnaethom

gadarnhau bod gan y staff fynediad at hambyrddau coch<sup>3</sup> ar y ward pan oedd angen. Fodd bynnag, cadarnhaodd y staff y byddai cymorth bob amser yn cael ei ddarparu lle bynnag y bo angen.

Gwelsom gleifion ar y ward yn cael mynediad at fyrbrydau a jygiau o ddŵr, a oedd o fewn eu cyrraedd. Dywedodd yr holl gleifion a atebodd y cwestiwn wrthym fod staff yn eu helpu i fwyta ac yfed os oedd angen, a bod dŵr ar gael iddynt.

### Rheoli meddyginiaethau

Gwnaethom adolygu pum siart meddyginiaeth a chanfod bod y rhain yn cael eu cwblhau'n briodol ar y cyfan. Roedd pob dynodwr claf yn cael ei gofnodi'n gywir ac roedd llofnod ar gyfer meddyginiaethau a oedd yn cael eu rhagnodi. Fodd bynnag, canfuom y canlynol:

- Mewn un siart, fe wnaethom nodi na chofnodwyd y rheswm dros beidio â rhoi meddyginiaeth i un claf
- Mewn tri o'r pum siart, canfuom fod ocsigen yn cael ei roi ond nad oedd wedi'i ddogfennu.

Canfuom bod darpariaeth fferylliaeth benodol ar y ward. Dywedwyd wrthym eu bod yn mynychu'r ward cyn mynd i wardiau eraill, sy'n rhan o'r ymdrech i leihau'r risg o drosglwyddo COVID-19.

Fel rhan o drefniadau cynllunio rhyddhau, canfuom fod meddyginiaethau i'r cleifion fynd adref gyda nhw yn cael eu trefnu mewn da bryd. Gwnaethom gadarnhau bod gan y ward fynediad i unrhyw feddyginiaeth arall y gallai fod ei hangen mewn argyfwng.

Gwelsom fod meddyginiaethau'n cael eu cadw mewn loceri wrth ymyl y gwely. Mae cleifion yn gallu cymryd meddyginiaeth eu hunain, ond dywedwyd wrthym na fyddai hynny'n digwydd yn aml. Gwnaethom gadarnhau bod angen asesiad risg cyn y caniateir hyn.

Gwnaethom gadarnhau bod trolïau meddyginiaeth ac oergelloedd wedi'u cloi'n ddiogel. Cwblhawyd gwiriadau tymheredd ac roeddent yn gyfredol. Fodd bynnag,

---



canfuom ar rai achlysuron nad oedd gwiriadau cyffuriau a reolir wedi'u cydlofnodi. Roedd yn gadarnhaol nodi bod hyn wedi'i nodi mewn cyfarfod llywodraethu ysbyty cyfan diweddar a bod cynlluniau adfer ar waith.

### Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau'r canlynol:

- Dylid cofnodi'r rheswm dros beidio â rhoi meddyginiaeth i gleifion
- Dylid sicrhau bod ocsigen yn cael ei ragnodi a'i gofnodi
- Dylid sicrhau bod cyffuriau a reolir yn cael eu cydlofnodi bob amser.

### Diogelu plant ac oedolion mewn perygl

Roedd polisïau a gweithdrefnau clir ar waith gan y bwrdd iechyd i staff eu dilyn pe bai pryder ynghylch diogelu. Roedd yr holl staff y siaradwyd â hwy yn ymwybodol o'r broses ar gyfer adrodd am unrhyw bryderon a byddent yn teimlo'n gyfforddus i wneud hynny. Dywedodd pob aelod o staff ac eithrio un wrthym eu bod wedi derbyn hyfforddiant diogelu.

Gwnaethom adolygu atgyfeiriad diogelu diweddar a mynegodd rheolwr y ward y weithdrefn a ddilynwyd yn glir a'r rhesymau dros wneud hynny. Nid oedd angen ymchwiliad pellach ar gyfer y digwyddiad penodol hwn.

Gwnaethom gadarnhau nad oedd unrhyw achosion diogelu agored ar y ward ar adeg yr arolygiad.

## Gofal effeithiol

### Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Gwelsom dystiolaeth eang o gynllunio cadarn, amlddisgyblaethol yn nhrefniadau ffisegol Ward 7 yn ystod y pandemig. Roedd hyn yn canolbwyntio ar sicrhau diogelwch y llwybr i leihau'r risg o drosglwyddo COVID-19 i staff a chleifion. Roedd tystiolaeth o gydberthnasau proffesiynol effeithiol rhwng amrywiaeth o dimau clinigol ac arbenigeddau ar draws y bwrdd iechyd wrth gefnogi'r llwybr hwn.

Roedd yn gadarnhaol nodi y bu pwyslais ar hyfforddiant clinigol ac uwchsgilio cymwyseddau staff, yn barod ar gyfer darparu gofal llawfeddygol ychwanegol a gwell. Roedd diwrnodau hyfforddi arbenigol hefyd wedi'u darparu gyda chymorth y timau clinigol o bob rhan o'r bwrdd iechyd i helpu i sicrhau bod staff yn teimlo'n hyderus i ddarparu agweddau newydd ar ofal cleifion. Dywedodd bron pob aelod

o staff a gwblhaodd holiadur AGIC wrthym eu bod yn teimlo bod hyfforddiant wedi eu helpu i wneud eu gwaith yn fwy effeithiol.

Dyweddodd staff wrthym eu bod yn ymwybodol o sut i gael mynediad at y polisi a'r llwybr sepsis. Roedd y staff yn gallu disgrifio'r camau gweithredu y byddent yn eu cymryd ac roedd pob un yn ymddangos yn hyderus o ran sut i ymateb yn briodol.

Gwelsom fod cleifion yn edrych yn dda ar y ward a'u bod yn ymddangos yn gyfforddus. Gwnaethom nodi bod lefelau poen wedi'u cofnodi'n aml a'u bod yn gyfredol. Dywedodd yr holl staff a gwblhaodd holiadur wrthym eu bod yn fodlon ag ansawdd y gofal y maent yn ei roi i gleifion. Dywedodd ychydig dros ddwy ran o dair o'r staff wrthym eu bod yn teimlo mai gofal cleifion yw prif flaenoriaeth y bwrdd iechyd.

### **Cadw cofnodion**

Gwelsom fod ffeiliau cleifion wedi'u strwythuro'n dda a'u bod yn hawdd eu llywio. Roedd cynlluniau clir ar waith ar gyfer taith y claf, o'i dderbyn, i'w driniaeth hyd at ei ryddhau. Roedd yr holl asesiadau a siartiau, megis maeth, hydradu a risg o gwympiadau yn gynhwysfawr ac yn gyfredol.

## Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

*Gwnaethom ystyried sut mae gwasanaethau'n cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn cefnogi darparu gofal diogel ac effeithiol. Gwnaethom hefyd ystyried sut mae'r gwasanaeth yn adolygu ac yn monitro ei berfformiad ei hun ochr yn ochr â'r Safonau Iechyd a Gofal.*

Yn gyffredinol, gwelsom dîm o staff ymroddedig, yr oedd llawer ohonynt yn aelodau hirsefydlog ar yr ward. Roedd y tîm yn cael ei gefnogi gan reolwyr ward ymroddedig. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn gefnogol ac yn weladwy ar yr uned.

Nodwyd nifer fach o feysydd gennym i'w gwella o ran llywodraethu a'r gweithlu.

### **Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd**

Roedd y bwrdd iechyd wedi cynnal nifer o gyfarfodydd a oedd yn ystyried ansawdd a llywodraethu wardiau yn yr ysbyty. Roedd hyn yn cynnwys cyfarfod misol â'r rheolwr nyrsio a chyfarfod craffu a sicrwydd misol. Roedd y cyfarfodydd hyn yn cynnwys trosolwg o reoli meddyginiaethau, atal a rheoli heintiau, digwyddiadau a hyfforddiant.

Gwnaethom nodi bod rhaglen archwilio'r uwch-reolwyr nyrsio wedi'i gohirio yn ystod y pandemig, ac oherwydd bylchau staffio yn yr uwch-dîm nyrsio. Fodd bynnag, dywedwyd wrthym fod yr uwch-nyrs yn cynnal hapwiriadau o'r ward a bod cynlluniau i ailgychwyn y rhaglen archwilio yn y dyfodol agos. Rydym yn argymhell bod y rhain yn ailddechrau cyn gynted â phosibl.

Dywedodd mwyafrif y staff wrthym eu bod yn gwybod pwy oedd yr<sup>4</sup> uwch-reolwyr. Fodd bynnag, dywedodd yr un nifer o staff wrthym mai weithiau yn unig y mae'r

---

<sup>4</sup>Rheolwyr y tu allan i reolaeth uniongyrchol y ward

uwch-reolwyr yn ceisio eu cynnwys mewn penderfyniadau pwysig ac yn gweithredu ar adborth staff.

Mae'r ward yn cael ei rheoli o ddydd i ddydd gan reolwr ward Band 7 a'i chefnogi gan ddirprwy reolwr ward. Roedd yn gadarnhaol nodi bod yr holl staff y siaradwyd â hwy wedi dweud wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi gan reolwyr y ward. Dywedodd bron bob un o'r 30 o ymatebwyr i'r holiadur eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi gan eu rheolwr uniongyrchol. Roedd y sylwadau'n cynnwys y canlynol:

“Nid oes gennyf air drwg i'w ddweud am fy rheolwr ... mae'n mynd y tu hwnt i'r disgwyl os oes gennyf unrhyw bryderon.”

“Fel nyrs sydd newydd gymhwyso, mae fy rheolwr wedi bod yn gefnogol iawn ac yn hawdd mynd ato.”

Fodd bynnag, dywedodd rhai aelodau o staff wrthym eu bod yn teimlo llai o gefnogaeth pan ofynnwyd iddynt weithio ar wardiau eraill ledled yr ysbyty.

Canfuom bod proses gadarn ar gyfer adrodd am ddigwyddiadau gan y bwrdd iechyd. Canfuom bod digwyddiadau'n cael lefel briodol o oruchwyliaeth gan uwch-reolwyr nyrsio yn y cyfarfod craffu misol. Roedd rheolwr y ward yn ymwybodol o'r broses ar gyfer adolygu, ymchwilio a rheoli digwyddiadau ar lefel ward. Gwelsom dystiolaeth bod dysgu'n cael ei rannu â staff trwy gyfarfodydd tîm. Dywedodd yr holl staff a gwblhaodd y cwestiwn hwn fel rhan o'r holiadur wrthym fod eu sefydliad yn eu hannog i adrodd am ddigwyddiadau a chytunodd pawb fod eu sefydliad yn cymryd camau i sicrhau nad ydynt yn digwydd eto.

Gwnaethom ofyn a oedd staff wedi wynebu gwahaniaethu yn y gwaith yn ystod y 12 mis diwethaf. Dywedodd pum aelod o staff wrthym eu bod wedi profi gwahaniaethu ar sail nodwedd warchodedig<sup>5</sup>. Fodd bynnag, dywedodd mwyafrif y staff a ymatebodd fod ganddynt fynediad teg a chyfartal at gyfleoedd yn y gweithle. Yn ogystal â hyn, cytunodd y mwyafrif fod eu gweithle yn cefnogi cydraddoldeb ac amrywiaeth.

---

<sup>5</sup>O dan y Ddeddf Cydraddoldeb, mae naw nodwedd warchodedig, e.e. oed, anabledd, rhyw

## Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r Bwrdd Iechyd Aildechrau Archwiliadau Uwch-reolwyr Nyrsio (matron) cyn gynted â phosibl.

Rhaid i'r Bwrdd Iechyd Sicrhau bod prosesau ar waith i sicrhau bod staff yn cael eu trin yn deg ac yn gyfartal ac na fydd unrhyw achosion o wahaniaethu yn cael eu goddef.

## Staff ac Adnoddau

### Y Gweithlu

Gwelsom dîm brwdfrydig o staff, gyda nifer o staff yn gweithio yn yr ysbyty ers blynyddoedd lawer. Ar y cyfan, disgrifiodd y staff berthynas dda â gweddill y tîm, a nododd rheolwyr y ward yr hyblygrwydd a'r ymrwymiad a ddangoswyd gan staff drwy gydol y pandemig.

Dywedodd rheolwr y ward wrthym ei fod yn fodlon â'r lefelau staffio presennol a'u bod yn gallu addasu anghenion staffio yn unol â hynny. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn teimlo bod y staffio'n dda ar y ward yn gyffredinol, ond dywedodd rhai aelodau o staff wrthym fod adegau pan fyddant yn teimlo dan bwysau.

Canfuom y gofynnir yn aml i staff weithio ar wardiau eraill yn yr ysbyty, ar yr amod bod craffter cleifion yn isel ar y ward a bod anghenion staffio mewn mannau eraill. Dywedodd mwyafrif y staff wrthym eu bod yn deall yr angen am hyn. Fodd bynnag, canfuom, ar nifer fach o achosion, fod nifer y nyrsys cofrestredig ar shift nos yn arbennig o isel. Rydym yn cydnabod y cymhlethdodau staffio a'r heriau a wynebir ar hyn o bryd. Fodd bynnag, mae angen sicrwydd ychwanegol ar y broses leol ar gyfer asesu risg a phenderfyniadau adleoli ynghylch nyrsys cofrestredig i wardiau eraill.

Roedd nifer fach o swyddi nyrsio gwag ar y ward. Roedd yn gadarnhaol i nodi bod hyn yn bennaf oherwydd bod nifer o staff wedi llwyddo i gael dyrchafiad i feysydd eraill o'r Bwrdd Iechyd. Gwnaethom nodi bod cynlluniau gweithredol ar waith i benodi staff i'r swyddi gwag a oedd yn weddill.

Gwnaethom nodi bod nifer o gyfleoedd ar yr uned ar gyfer hyfforddi a datblygu staff newydd a staff phresennol a mynegodd rheolwr yr uned frwdfrydedd dros hyn. Roedd yn gadarnhaol gweld bod nifer o staff presennol yn ymgymryd ag addysg a hyfforddiant pellach i gefnogi eu datblygiad gyrfa.

Gwelsom fod rheolwyr y ward wedi bod yn llwyddiannus wrth ddatblygu rôl ymarferydd nyrsio cynorthwyol. Roedd hyn yn dangos arloesedd da o ran heriau'r gweithlu ac yn rhoi cyfleoedd datblygu i staff gofal iechyd presennol.

Roedd lefel dda o gydymffurfio â hyfforddiant gorfodol, sef 97%. Darparwyd hyfforddiant uwchsgilio clinigol ychwanegol hefyd a gwelsom gofnodion i ddangos bod nifer dda o staff yn manteisio ar y cyfleoedd hyn. Dywedodd mwyafrif y staff a gwblhaodd holiadur wrthym fod yr hyfforddiant wedi eu helpu i wneud eu gwaith yn fwy effeithiol. Dywedodd rhai aelodau o staff wrthym yr hoffent gael hyfforddiant ychwanegol neu hyfforddiant gloywi mewn gofal stoma a rheoli pwmp, ymhlith pynciau eraill, er mwyn cynnal eu gwybodaeth gyfredol.

Canfuom fod 68% yn cydymffurfio ag arfarniadau staff blynyddol, sy'n is na tharged y bwrdd iechyd o 85%. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod yr anawsterau a achosir gan y pandemig o ran sicrhau bod arfarniadau'n cael eu cwblhau'n brydlon. Er gwaethaf hyn, dywedodd y staff wrthym eu bod yn teimlo bod y broses arfarnu yn werthfawr, a dywedodd y mwyafrif o'r staff fod eu rheolwr wedi eu cefnogi i dderbyn hyfforddiant a datblygiad penodol.

#### Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r Bwrdd Iechyd ddarparu naratif neu bolisi ysgrifenedig ar gyfer yr asesiad risg a/neu benderfyniadau adleoli ynghylch nyrsys cofrestredig ar draws y safle.

Rhaid i'r Bwrdd Iechyd nodi unrhyw anghenion hyfforddiant ychwanegol neu hyfforddiant gloywi.

## 4. Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, mae'r rhain yn cael eu manylu yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle bônt yn berthnasol):

- Atodiad A: Mae hwn yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon o ran diogelwch cleifion a gafodd eu huwchgfyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Mae hwn yn cynnwys unrhyw bryderon dybryd o ran diogelwch cleifion, lle'r ydym am i'r gwasanaeth lunio cynllun gwella ar unwaith sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Mae hwn yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym am i'r gwasanaeth lunio cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Dylai'r cynlluniau gwella:

- Datgan yn eglur pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion i roi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw digonol

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw canfyddiadau'n systemig ar draws mannau eraill o fewn y sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn parhau heb eu cymryd a/neu ar y gweill, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi cael sylw

Pan gytunir ar y cynllun gwella, caiff ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

## 5. Sut rydym yn arolygu ysbytai

Mae amrywiaeth o ddulliau ar gael inni pan fyddwn yn arolygu ysbytai'r GIG, gan gynnwys:

- Arolygiad un ward trylwyr: rydym yn cynnal adolygiad trylwyr a manwl o un ward
- Arolygiad aml-ward: rydym yn ymweld â nifer o wardiau ac adrannau ar un safle ysbyty i nodi materion neu themâu a allai fod yn berthnasol i'r ysbyty cyfan
- Arolygiad aml-ysbyty: rydym yn ymweld â nifer o ysbytai yn yr un bwrdd iechyd i asesu llywodraethu a darpariaeth gwasanaethau cyfan

Mae arolygiadau o ysbytai yn ddirybudd fel rheol. Byddwn bob amser yn ceisio cynnal arolygiadau dirybudd gan fod hyn yn ein galluogi i weld gwasanaethau yn y ffordd y maent yn gweithredu fel rheol. Nid yw'r gwasanaeth yn derbyn unrhyw rybudd ymlaen llaw o arolygiad dirybudd.

Mae adborth yn cael ei ddarparu i gynrychiolwyr y gwasanaeth ar ddiwedd yr arolygiad, mewn modd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefelau gweithredol a strategol.

Rydym yn gwirio sut y mae ysbytai'n bodloni [Safonau Iechyd a Gofal 2015](#). Rydym yn ystyried safonau a chanllawiau proffesiynol eraill pan fo hynny'n berthnasol.

Mae'r arolygiadau hyn yn rhoi cipolwg o'r safonau gofal o fewn ysbytai.

Ceir gwybodaeth bellach am [sut mae AGIC yn arolygu'r GIG](#) ar ein gwefan.



## Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a uwchgyfeiriwyd yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith / effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith / effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion	Sut y gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol			

## Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith

**Ysbyty:**

**Ward/adran:**

**Dyddiad yr arolygiad:**

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon dybryd ynghylch diogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu brys y mae'n eu cymryd.

Yr hyn y mae angen ei wella ar unwaith	Safon	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol				

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

**Cynrychiolydd y gwasanaeth:**

**Enw (llythrennau bras):**

**Swydd:**

**Dyddiad:**

## Atodiad C – Cynllun gwella

Ysbyty: Ysbyty'r Tywysog Philip

Ward/adran: Ward 7

Dyddiad yr arolygiad: 2 - 3 Tachwedd 2021

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<b>Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol</b>				
Rhaid i'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod amserlenni glanhau yn cynnwys nodyn byr i egluro unrhyw eithriadau neu hepgoriadau.	2.1 Rheoli risg a hyrwyddo iechyd a diogelwch	<ul style="list-style-type: none"><li>- Mae amserlenni glanhau wardiau wedi'u diwygio i gynnwys sylwadau a byddant ar waith o Ionawr 2022.</li><li>- Rhoi Uwch-reolwyr Nyrsio a thîm Ystadau ar waith i gyd-fynd â'r credydau misol ar gyfer archwiliad glanhau a wneir gan oruchwylwyr gwasanaethau'r gwesty.</li><li>- Cwblhawyd metrigau gofal misol sy'n cynnwys amserlen glanhau wardiau</li></ul>	Dirprwy Bennaeth Nyrsio Uwch-reolwr Nyrsio Prif Nyrs Ward 7	Ionawr 2022  Cwblhawyd

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		- Cydymffurfiaeth glanhau i'w drafod mewn cyfarfodydd craffu a sicrwydd misol		Cwblhawyd
<p>Rhaid i'r bwrdd iechyd wneud y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Diweddarau eu gweithdrefn weithredu safonol i ffurfioli a safoni'r broses ar gyfer symud staff o'r ward i rannau eraill o'r ysbyty. Dylai hyn gynnwys dull asesu risg tuag at amgylchiadau personol staff</li> </ul>	2.4 Atal a rheoli heintiau a dihalogi	<p>Symud staff i gydymffurfio â Pholisi Uwchgyfeirio Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda a thrafodwyd hyn mewn cyfarfodydd llif cleifion</p> <p>Cyfarfodydd llif cleifion – trafodaethau dair gwaith y dydd gyda phrif nyrsys y ward a'r tîm rheoli. Staffio'r holl feysydd a drafodwyd mewn perthynas â diffygion ac ailddyrrannu staff i lefelu'r risg.</p> <p>Cynlluniau clir wedi'u nodi mewn adroddiad safle 24 awr</p> <p>Mae'n ofynnol i holl staff y Bwrdd Iechyd gwblhau Asesiad Risg COVID-19 Cymru Gyfan. Yn dilyn canllawiau gan Lywodraeth Cymru, mae'r asesiad risg hwn yn manylu ar gamau gweithredu i'r aelodau staff unigol a'r Bwrdd Iechyd eu cymryd i sicrhau arferion gweithio diogel, hynny yw gweithio o gartref, cyflawni dyletswyddau wedi'u haddasu</p>	<p>Dirprwy Bennaeth Nyrsio</p> <p>Uwch-reolwr Nyrsio</p> <p>Prif Nyrs Ward 7</p>	<p>Cwblhawyd</p> <p>Cwblhawyd</p>

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<ul style="list-style-type: none"> <li>Diweddarau'r arwyddion atgoffa symptomau COVID-19 i adlewyrchu ehangder symptomau COVID-19 yn well.</li> </ul>		<p>neu weithio ar lwybr cleifion gwyrdd yn unig (lle nad yw cleifion yn cael canlyniad positif o COVID-19).</p> <p>Bydd prif nyrs y ward ac uwch-nyrs yn gosod symudiad staff fel eitem yng nghyfarfod tîm nesaf y ward.</p> <p>Arwyddion ychwanegol i'w harddangos yn yr ardal oedd</p>	Prif nyrs y ward ac Uwch Nyrs	Chwefror 2022
<p>Rhaid i'r Bwrdd Iechyd sicrhau'r canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Dylid cofnodi'r rheswm dros beidio â rhoi meddyginiaeth i gleifion</li> </ul>	2.6 Rheoli meddyginiaethau	Dylid atgoffa staff o'r gofyniad i ddogfennu unrhyw feddyginiaeth sy'n cael ei hepgor drwy'r cyfarfod craffu. Archwiliad meddyginiaeth gan Uwch Nyrs i'w gwblhau bob chwe mis.	Dirprwy Bennaeth Nyrsio Uwch-reolwr Nyrsio Prif Nyrs Ward 7	Cwblhawyd

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<ul style="list-style-type: none"> <li>Dylid sicrhau bod ocsigen yn cael ei ragnodi a'i gofnodi</li> <li>Dylid sicrhau bod cyffuriau a reolir yn cael eu cydlofnodi bob amser.</li> </ul>		<p>Atgoffwyd y staff o Bolisi Rheoli Meddyginiaeth y Bwrdd Iechyd trwy'r cyfarfod craffu a chyfarfodydd y ward</p> <p>Presgripsiwn ocsigen i gael sylw yn y cyfarfod sicrwydd craffu nesaf ar 21 Rhagfyr 2021 ac yn y cyfarfod Llywodraethu Ysbytai ar 8 Chwefror 2022.</p> <p>Wedi'i gofnodi ar y metrigau gofal misol</p>	<p>Dirprwy Bennaeth Nyrsio</p> <p>Dirprwy Bennaeth Nyrsio</p>	<p>Chwefror 2022</p> <p>Cwblhawyd</p>
Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth				
<p>Rhaid i'r Bwrdd Iechyd ailddechrau archwiliadau uwch-reolwyr nyrsio (matron) cyn gynted â phosibl.</p>	<p>Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd</p>	<p>Trafodir cydymffurfiad a chanfyddiadau yn y cyfarfodydd sicrwydd craffu misol lle mae'r rhaglen Archwilio Uwch-Reolwr Nyrsio yn eitem agenda safonol.</p>	<p>Dirprwy Bennaeth Nyrsio</p> <p>Uwch-reolwr Nyrsio</p> <p>Prif Nyrs Ward 7</p>	<p>Cwblhawyd</p>

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p>Rhaid i'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod prosesau ar waith i sicrhau bod staff yn cael eu trin yn deg ac yn gyfartal ac na fydd unrhyw achosion o wahaniaethu yn cael eu goddef.</p>		<p>Bydd y Dirprwy Bennaeth Nyrsio ar gyfer Ysbyty'r Tywysog Philip a Chyfarwyddwr Clinigol yr Ysbyty yn atgoffa staff am y gwasanaethau cymorth sydd ar gael iddynt yng nghyfarfod nesaf y Fforwm Nyrsys Proffesiynol (Chwefror 2022) a thrwy Staffio Meddygol.</p> <p>Y Dirprwy Bennaeth Nyrsio ar gyfer Ysbyty'r Tywysog Philip a Chyfarwyddwr Clinigol yr Ysbyty i dynnu sylw staff at argaeledd hyfforddiant Cydraddoldeb, cyfarfodydd rhwydwaith i bobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig, a Rhyddid i Siarad, fel mecanweithiau ar gyfer codi pryderon yn y cyfarfod Llywodraethu Ysbytai nesaf (Chwefror 2022), cyfarfod nesaf (Chwefror 2022) y Fforwm Nyrsys Proffesiynol, a thrwy Staffio Meddygol.</p>	<p>Dirprwy Bennaeth Nyrsio Ysbyty'r Tywysog Philip a Chyfarwyddwr Clinigol yr Ysbyty</p> <p>Dirprwy Bennaeth Nyrsio Ysbyty'r Tywysog Philip a Chyfarwyddwr Clinigol yr Ysbyty</p>	<p>Chwefror 2022</p> <p>Chwefror 2022</p>
<p>Rhaid i'r Bwrdd Iechyd ddarparu naratif neu bolisi ysgrifenedig ar gyfer yr asesiad risg a/neu</p>	<p>7.1 Y gweithlu</p>	<p>Symud staff i gydymffurfio â pholisi uwchgyfeirio Bwrdd Iechyd Prifysgol</p>	<p>Dirprwy Bennaeth Nyrsio</p>	<p>Cwblhawyd – diweddarwyd 20/01/22</p>

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p>benderfyniadau adleoli ynghylch nyrsys cofrestredig ar draws y safle.</p> <p>Rhaid i'r Bwrdd Iechyd nodi unrhyw anghenion hyfforddi ychwanegol neu hyfforddiant gloywi.</p>		<p>Hywel Dda – darparwyd esboniad manwl pellach 20/01/22 ynghlwm.</p> <p>Bydd prif nyrs y ward ac uwch nyrs yn gosod symudiad staff fel eitem yng nghyfarfod nesaf tîm y ward.</p> <p>Ffurflenni asesu risg COVID-19 wedi'u cwblhau ar gydymffurfio â Hyfforddiant Gorfodol Staff: 83.49%</p> <p>Cyfarfodydd llif cleifion – deirgwaith y dydd – trafodwyd staffio a chrafter wardiau</p> <p>Cynlluniau clir wedi'u nodi mewn adroddiad safle 24 awr</p> <p>Pennaeth Addysg a Hyfforddiant i adolygu'r broses Dadansoddi Anghenion Hyfforddi, gyda'r nod o nodi anghenion hyfforddiant gloywi. Gwneir hyn fel rhan o'r adolygiad o'r Fframwaith Addysg Glinigol sydd ar y gweill ar hyn o bryd, a</p>	<p>Uwch-reolwr Nyrsio</p> <p>Rheolwr y Ward / Uwch Nyrs</p> <p>Pennaeth Addysg a Hyfforddiant / Pennaeth Nyrsio</p>	<p>Chwefror 2022</p> <p>Diweddariad i'w ddarparu ym mis Mawrth 2022</p>



Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		gweithrediad yr adolygiad ehangach o brosesau Dadansoddi Anghenion Hyfforddi.		

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

### Cynrychiolydd y gwasanaeth

**Enw (llythrennau bras):** Meinir Williams

**Swydd:** Dirprwy Bennaeth Nyrsio

**Dyddiad:** 17 Rhagfyr 2021 Wedi'i ddiweddarau ar 20 Ionawr 2022